OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3270 (Cy. 320)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Rhagfyr 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *31 Rhagfyr 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ("Deddf 1972") mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**2**), ac y maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel cyfeiriadau at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd(**3**).

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.
(**2**) O.S.2010/2690
(**3**) O.J. L 347, 20.12.2013. t.671.